

Tasg 1

Cyffrous!

1. Pa un o'r teitlau yma fyddai'r gorau ar gyfer y darn yn eich barn chi?
 - a. Sioe ffasiwn pedwar diwrnod
 - b. Gŵyl siocled arbennig
 - c. Gŵyl llyfrau Cymraeg
 - ch. Gŵyl gerddoriaeth fodern

Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Beth yw ffurf y darn?
 - a. neges e-bost
 - b. dyddiadur
 - c. erthygl
 - ch. poster

Rhowch reswm dros eich ateb.

3. Beth yw pwrpas y darn?

- a. beirniadu
- b. cyflwyno gwybodaeth
- c. canmol
- ch. cwyno

Rhowch reswm dros eich ateb.

4. Mae'r arddull yn ...

- a. ffurfiol
- b. barddonol
- c. personol
- ch. ffeithiol

Rhowch reswm dros eich ateb.

5. Ticiwch **cywir** neu **anghywir**.

- a. Bydd yr ŵyl yn rhedeg am ddeg diwrnod.
- b. Bydd yr ŵyl yn dechrau yn ystod y bore ar y diwrnod olaf o Hydref.
- c. Bydd hi'n bosib blasu bwyd o wlad arall yn yr ŵyl.
- ch. Bydd pobl sy'n ysgrifennu llyfrau yn bresennol yn yr ŵyl.
- d. Gŵyl i oedolion yn unig yw hon.

cywir	anghywir

Cywirwch y brawddegau anghywir.

6. Sylwch ar y disgrifiadau hyn:

- noson agoriadol anhygoel
- sioe ffasiwn arbennig
- gweithdai diddorol
- cerfluniau gwych
- sioeau ysblennydd
- bwyd blasus

a. Tanlinellwch yr **ansoddair** ym mhob enghraifft.

Mae ansoddeiriau yn gallu gwneud darn o waith yn fwy diddorol, felly triwch ddefnyddio rhai yn eich gwaith chi.

b. Ysgrifennwch ansoddair addas yn y bylchau isod.

Nos Wener

Dw i'n mwynhau nos Wener. Fel arfer, mae Dad yn paratoi pryd o fwyd

..... i ni i ddathlu diwedd yr wythnos. Yna, mae fy mrawd a fi'n

helpu i olchi'r llestri

Ar ôl gorffen, rydyn ni i gyd yn eistedd wrth y bwrdd yn y

gegin i chwarae gêm Weithiau, os

yw hi'n braf, rydyn ni'n mynd am dro yn y parc

..... sydd ar ddiwedd y stryd, ond dydyn ni ddim yn gwneud hyn

mor aml yn y gaeaf.

Uchafbwynt y noson yw eistedd fel teulu o flaen y tân tua wyth o'r gloch i wylio ffilm a

rhannu bocs o siocledi

Dw i'n hoffi'r rhai ond mae'n well gan

fy mrawd a fy nhad rai

Rydyn ni i gyd yn hoffi gwyllo ffilmiau a

..... felly dydy dewis beth rydyn ni'n mynd i'w wyllo ddim yn

broblem.

7. Ysgrifennwch ddarn am “Nos Wener”, e.e.

- Beth rydych chi'n ei wneud fel arfer?
- Gyda phwy?
- Ble?
- Pam rydych chi'n gwneud hyn?
- Unrhyw wybodaeth arall.

Gallech chi sôn am ryw nos Wener arbennig neu nos Wener fel arfer. Ceisiwch ddefnyddio ansoddeiriau yn eich darn.